Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 31 Mawrth 2015

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, G. C. Jones, A. Mummery, H. Huws, E. Parry, G. Parry, B. Jones, D. Williams, Meirion Jones,
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc), Anwen Le Cras (Swyddog Cyllid),

1. Ymddiheuriadau: Mervyn Jones, A. Williams, A. Thomas,

2. Datganiadau Diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

3. Cyfrifon mis Mawrth 2015
3.1 J. Roberts yn cynnig, G. C. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.
3.2 Diolchodd A. Mummery ar ran y Cyngor Bro I Anwen Le Cras am ei gwaith dros y blynyddoedd.

4. Materion y Cyngor Sir
4.1 Nodwyd gan A. Mummery fod dim cyfarfod o lywodraethwyr yr ysgol wedi cymryd lle am fod yno ddim cworwm yn bresennol.

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 24 Chwefror 2015
5.1 J. Roberts yn cynnig, A. Mummery yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

6. Materion yn codi
6.1 Tŷ Mawr - A. Mummery wedi rhoi ei bryder i staff Rhun Ap Iorwerth ond heb gael ymateb hyd yn hyn. A Mummery am ymweld â'r safle.
6.2 Twr Marcwis - G. C. Jones yn nodi bod cwynion am ordyfiant a chyflwr y llwybrau. Cytunwyd y dylid gofyn i asiant Jones Peckover I gyfarfod y Cyngor Bro am ddiweddariad, ac efallai gofyn am ganiatâd i grŵp lleol gael mynd yno i gynnal a chadw'r llwybrau.
6.3 Plac ar dy Kyffin Williams - A. Mummery wedi siarad gyda Pat West. Mae hi am ysgrifennu i edrych i gael caniatâd y perchennog.
6.4 Bin tu allan i'r Neuadd Goffa - Clerc I ddilyn i fyny gyda Chyngor Sir Ynys Môn
6.5 Paentio'r Neuadd Goffa - Diolchodd y Cyngor Bro I Emlyn am weithredu
6.6 Meinciau - Andre Le Cras wedi cael cyfarwyddiadau i'w gosod
6.7 Maes Parcio - Clerc wedi cyfarfod swyddog Hogans, maent am yrru eu pris cyn gynted â phosib
6.8 Grid Cenedlaethol - H. Huws am basio ymlaen y wybodaeth cyn gynted â phosib.
6.9 Bwrdd Iechyd - Disgwyl ymateb gan GIG a Linda West i lythyr y Cyngor Bro.
6.10 Llwybr beicio - Clerc I gysylltu gydag Wyn Rhys Jones syn y Cyngor Sir am gadarnhad o bwy sydd yn gyfrifol am ei gynnal a chadw
6.11 Cais yswiriant y pafiliwn - Clerc wedi cysylltu gyda Allianz, angen gyrru mwy o wybodaeth iddynt.
6.12 Maes Amlbwrpas - Clerc I ofyn I Andre Le Cras dorri y clo a gosod un newydd
6.13 Maes parcio'r Fynwent - llythyr wedi'i yrru gan CSYM I berchennog y trailer yn gofyn iddo beidio â pharcio yno.

7. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 10 Mawrth 2015
7.1 A. Jones yn cynnig, G. C. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir

8. Materion yn codi
8.1 J. Roberts yn nodi ei fod wedi mwynhau'r cyflwyniad gan Mr Aled Lewis o CSYM.
8.2 Trefniadau Nadolig - Gofyn i Andre Le Cras am gadarnhad o beth yw'r cyflenwad trydan i'r cloc

9. Grant Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

9.1 G. C. Jones yn cynnig helpu y clerc i lenwi'r ffurflen gais. Hefyd angen gwybodaeth bellach gan Anwen Le Cras I gefnogi y cais

10. Ceisiadau Cynllunio

10.1 31C263A/FR - Cais llawn am addasu ag ehangu yn 38 Ffordd Gwenllian, Llanfairpwll - Dim sylw

10.2 31C59N/TPO - Cais ar gyfer gwaith i goeden sydd wedi'i diogelu dan orchymyn Diogelu Coed ym Mhlas Garnedd, Ffordd Penmynydd, Llanfairpwll - Dim sylw

10.3 31C351A - Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i annedd yn 4 Maes y Don, Llanfairpwll - Dim sylw

11. Gohebiaeth

11.1 Cyngor Sir Ynys Môn - Penderfyniadau cynllunio - Derbyn y wybodaeth

11.2 Cyngor ar Bopeth - Llythyr - Derbyn y wybodaeth

12.3 The pension regulator - Llythyr - Clerc I gael mwy o wybodaeth a Chyngor gan Un Llais Cymru

12. Unrhyw Fater Arall

12.1 G. Parry yn nodi fod angen twtio gwarchodfa bws y Wern. A. Jones am drefnu cael pris gan Dylan

12.2 G. C. Jones yn nodi fod arwydd wrth y tai newydd yn beryglus. Clerc I ofyn i'r datblygwr i'w wneud yn saff.

12.3 G. Parry yn cynnig i ohirio cyfarfod y Fynwent mis Ebrill I Fis Mai. A. Mummery yn cynnig i gynnal Cyfarfod Cyllid yr un noson.

12.4 Cytunwyd i yrru llythyr o ddiolch I Kon-X am eu gwaith argraffu gyda'r ymgyrch Neuadd Goffa.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 28 Ebrill 2015 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd …… (Cadeirydd) ……Dyddiad **80**